# LLYFR £1

## TAFLEN WYBODAETH

## GWYRDD EIN BYD

**AWDUR:** Duncan Brown
**DARLUNIWYD GAN:** Helen Flook
**CYHOEDDWR:** Rily




### BROLIANT:

Ydych chi wedi clywed am y pysgodyn hynafol sy'n byw yn Llyn Tegid? Beth am yr aderyn sy'n nythu mewn tyllau cwningod ar Ynys Sgomer? Ac oeddech chi'n gwybod bod gennym ni fforestydd glaw yma yng Nghymru?

I ddysgu mwy am y pethau hyn a llwyth o ffeithiau difyr eraill, dewch am dro drwy Gymru gyda'r naturiaethwr Duncan Brown. O'r môr i'r mynydd ac o'r trefi i'r ffermydd, mae bywyd gwyllt rhyfeddol o'n cwmpas ym mhob man. Gyda darluniau cain gan Helen Flook ar bob tudalen, mae *Gwyrdd Ein Byd* yn wledd i'r llygaid ac yn cyflwyno gwybodaeth bwysig am natur Cymru – a'r pethau bychain y gallwn ni eu gwneud i'w diogelu.


### ADNABOD YR AWDUR DUNCAN BROWN:

Ganwyd Duncan yn Swydd Derby a symudodd i Gymru pan oedd yn flwydd oed. Ar ôl ennill gradd Celf Gain o Ysgol Gelf Norwich, bu'n athro Celf am dair blynedd. Yna, dan ddylanwad ei fagwraeth yng nghesail mynyddoedd Eryri, dilynodd drywydd gwahanol ac aeth i astudio Bywydeg Maes ym Mhrifysgol Llundain. Bu'n rheolwr gwarchodfeydd natur yn Ngwynedd am bron i hanner canrif, lle'r oedd yn gyfrifol am gynefinoedd amrywiol – twyni tywod, mynyddoedd, corsydd a choedwigoedd. Datblygodd ei ddiddordeb fwyfwy i gyfeiriad ecoleg hanesyddol a pherthynas natur â phobl trwy'r oesoedd, yn enwedig yng Nghymru. Ers ymddeol yn 2009, mae'n mwynhau cydweithio â Twm Elias ac eraill ar brosiect Llên Natur, sy'n dod â thri pheth at ei gilydd: y Gymraeg, consérn am yr amgylchedd a diddordeb ym myd natur. Mae o hefyd wrth ei fodd yn beicio, garddio a choginio.


### ADNABOD Y DYLUNYDD HELEN FLOOK

Ganwyd Helen yng ngogledd Cymru ac mae ganddi radd Dylunio Graffeg o Ysgol Gelf Norwich. Bu'n gweithio am dros ddeng mlynedd fel archaeolegydd ym Mhrydain ac yn Ewrop. Yna, yn 1995, symudodd i Ganada gyda'i theulu. Dechreuodd weithio fel awdur / darlunydd bryd hynny, a deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae hi wedi darlunio dros gant o lyfrau i gyhoeddwyr ledled y byd. Yn 2005, dychwelodd Helen i ogledd Cymru gyda'i theulu. Mae hi nawr yn byw ac yn gweithio ym mhentref bach Abergwyngregyn, rhwng y môr a mynyddoedd Eryri. Yn ogystal â darlunio, mae Helen yn mwynhau cwiltio, gwau, garddio, ioga a cherdded.


## If you liked this then try...




**Awdur:** Jules Pottle
**Cyhoeddwr:** Rily




**Awdur:** Cathriona Hickey
**Cyhoeddwr:** Rily




**Awdur:** Alice James, Emily Bone
**Cyhoeddwr:** Rily


Sponsored by National Book Tokens

**Changing lives through a love of books and reading | Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a darllen**

World Book Day® is a charity sponsored by National Book Tokens | Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a darllen. Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens.

Registered charity number 1079257 (England and Wales) | Registered company number 03783095 (UK).
Elusen gofrestredig 1079257 (Cymru a Lloegr) | Cwmni cofrestredig 03783095 (DU)



# LLYFR £1

## TAFLEN WYBODAETH


Mae Diwrnod y Llyfr wedi gweithio hefo Coram Beanstalk and Bag Books i greu gweithgareddau sy'n agor y drws i bob llyfr cyn i'r plentyn agor y clawr.

### SIARAD AM Y LLYFR:

Sawl math o fywyd gwyllt anhygoel wyt ti'n gallu ei weld ar y clawr blaen?

Hoffet ti archwilio pwll glan môr? Pa fathau o greaduriaid fyddet ti'n eu ffeindio, tybed?

Wyt ti erioed wedi cerdded i fyny bryn mawr neu fynydd? Sut fyddai'n teimlo i gyrraedd copa mynydd? Beth fyddet ti'n gallu ei weld o'r copa?

### GÊM I'W CHWARAE:

**"Fyddai'n well gen ti?"**

Gan ddefnyddio'r lleoedd a'r bywyd gwyllt gwahanol yn y llyfr, meddylia am ambell gwestiwn 'Fyddai'n well gen ti?' i'w ofyn i dy bartner.

Er enghraifft:

Fyddai'n well gen ti archwilio'r goedwig law neu ddringo mynydd?

Fyddai'n well gen ti dreulio diwrnod yn y ddinas neu ar lan y môr?

Fyddai'n well gen ti fyw mewn twll o dan y ddaear neu mewn nyth uchel?

**Mwy o hwyl**

Cer am dro natur yn yr awyr agored gydag oedolyn i weld sawl arwydd o fywyd gwyllt sydd o dy gwmpas. Galli di wneud hyn p'un a wyt ti'n byw mewn dinas, tref, pentref neu yng nghefn gwlad!

### GWEITHGAREDDAU SYNHWYRAIDD:

**Bin Synhwyraidd Archwilio Bywyd Gwyllt Cymru**

Beth am greu bin neu hambwrdd synhwyraidd i gynrychioli tirweddau a bywyd gwyllt amrywiol Cymru?

Defnyddiwch ddeunyddiau gwahanol i adlewyrchu'r cynefinoedd unigryw sy'n cael eu trafod yn y llyfr:

- **Llyn Tegid:** Gallwch chi gynnwys cerrig llyfn a gleiniau jel glas i gynrychioli'r llyn, ac ambell i bysgodyn tegan.
- **Ynys Sgomer:** Gallwch chi ddefnyddio plu meddal a ffabrig gweadog i gynrychioli adar sy'n nythu a'u cartrefi tyrchu unigryw.
- **Coedwig law Cymru:** Defnyddiwch fwsogl, brigau a sbyngau llaith i efelychu lloriau gwyrddlas, llaith y goedwig law Geltaidd.

Archwiliwch y deunyddiau, gan drafod y cynefinoedd a'r bywyd gwyllt sy'n byw yno. Gallwch chi hyd yn oed chwarae recordiad o ganeuon adar neu synau'r dŵr i wneud y profiad hyd yn oed yn fwy ymgollol.


Sponsored by National Book Tokens

**Changing lives through a love of books and reading | Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a darllen**

World Book Day® is a charity sponsored by National Book Tokens | Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a darllen. Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens.

Registered charity number 1079257 (England and Wales) | Registered company number 03783095 (UK).
Elusen gofrestredig 1079257 (Cymru a Lloegr) | Cwmni cofrestredig 03783095 (DU)